Set Dafydd y Garreg Wen



Fel yr o'wn i'n rhodio'r caea ddy' Mawrth diwetha' o ddyddia'r byd
Mewn lle isel dan goedwig dawel mi glwy'n i ddwy'n ymgomio 'nghyd,
Nesu wnes yn nes nes atynt nes o'wn i yn y lle a'r fan
A phwy oedd yno yn ymgomio ond f'annwyl gariad i gyda'i mam.

"F'annwyl eneth, ti sydd yma gyda mi â'th ddwy law'n rhydd
Yn lan dy drwsiad yn hardd d'osodiad a minnau am dy fatsio sydd,
Cei fowntio'th geffyl fy nghangen gynnil, a gweision sufyl iawn i'w trin,
A golud bydol sef aur melynion ac arian gloywon ar dy glun."

"Pe gawn i rannau gwledydd India, sidanau Persia, aur Periw
Gwell gen i'r mab rwyf fi'n ei garu, rwyf fi am sefyll iddo'n driw,"
"Wel os fel yna rwyt ti'n darparu cei gweirio'th gwely ar bigau'r drain
Oni choeli 'ngeiria bydd chwerw'r chwara os mentri gyda'r bachgen main."

"Wel gyda'r bachgen main mi fentra, Mam a dwedyd ichi'r gwir,
Gadawai'r moddion i'r cybyddion a mentraf gyda blodau'r sir,
Ei wyneb purwyn a'i wallt melyn ac ar ei ruddiau mae dwy ros
A gwyn ei byd y ferch a fyddo yn ei freichiau'n cysgu'r nos**!"**

Dafydd y Garreg Wen



Trefniant Meurig Williams

Cariwch, medd Dafydd, fy nhelyn i mi; Ceisiaf cyn marw roi tôn arni hi.
Codwch fy nwylaw i gyrraedd y tant; Duw a'ch bendithio, fy ngweddw a'm plant.

Neithiwr mi glywais lais angel fel hyn: "Dafydd tyrd adre a chwarae drwy'r glyn."
Telyn fy mebyd, ffarwel i dyd dant; Duw a'ch bendithio, fy ngweddw a'm plant.

Cariadgan y Sguthan



Trefniant Meurig Williams